



Uned 4C: Cronfeydd data canghennog

Ynglyn â'r uned hon:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu sut i ddefnyddio a chreu cronfeydd data canghennog i ddioli a dosbarthu gwybodaeth.

Bydd plant yn cael eu cyflwyno i gwestiynau 'ie/na' sy'n gwahanu set o wrthrychau mewn dwy is-set. Dangosir iddynt sut i chwilio a chreu cronfeydd data canghennog.

Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth ddsbarthu planhigion ac anifeiliaid mewn gwyddoniaeth.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar Uned 3B 'Cyflwyniad i gronfeydd data'.

Mae'r uned yn cymryd yn ganiataol bod y plant yn gallu rhannu setiau o wrthrychau yn is-setiau.

Geirfa:

cangen | cronfa ddata

Adnoddau:

amrywiaeth o wrthrychau i'w defnyddio fel 'allwedd' e.e. cerrig â labeli, lluniau o blanhigion, gwrthrychau cartref, lluniau o anifeiliaid bach | cronfa ddata ganghennog gyda ffeil data a baratowyd ar un o'r webedd

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: datblygu a chwilio cronfa ddata ganghennog

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: chwilio cronfa ddata ganghennog

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: datblygu a chwilio cronfa ddata ganghennog gan ddefnyddio meini prawf effeithlon



Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu...	Gweithgareddau Posib	Canlyniadau Dysgu <i>Gall disgyblion...</i>	Pwyntiau i'w Nodi
Gosod yr Olygfa <ul style="list-style-type: none">• syniad allweddol: bod modd defnyddio cwestiynau ie/nage i rannu set o wrthrychau yn is-setiau a bod dilyniant o gwestiynau 'ie/na' yn gallu bod yn fodd i adnabod gwrthrych	<ul style="list-style-type: none">◆ Dangoswch ddetholiad o tua 15 gwrthrych tebyg, fel gwrthrychau cartref, i'r dosbarth. Dywedwch wrth y dosbarth eich bod yn meddwl am un o'r gwrthrychau a bod yn rhaid iddyn nhw ddyfalu p'un ydyw drwy ofyn cwestiynau 'ie/na', fel '<i>a yw'n wrthrych plastig?</i>' Trafodwch pa gwestiynau sy'n gweithio'n dda a nodwch nad yw cwestiynau am niferoedd bach o wrthrychau o gymorth os na ydy'r ateb. Anogwch nhw i ddefnyddio cwestiynau sy'n rhannu'r set o wrthrychau yn ddwy ran.	<ul style="list-style-type: none">• creu cyfres o gwestiynau 'ie/na' i nodi gwrthrychau	<ul style="list-style-type: none">• Bydd rhai plant yn ei chael yn anodd peidio â gofyn cwestiynau fel 'Oes ganddo ddolen neu oes ganddo goesau?' Nodwch mai dau gwestiwn yw hyn mewn gwirionedd.• Gall plant sy'n cael y gwaith yn anodd orchuddio neu dynnu ymaith gwrthrychau sydd wedi cael eu henwi.• Gellir annog plant sy'n cael y gwaith yn hawdd i feddwl am gwestiynau a fydd yn rhoi'r ateb ymhen llai na phedwar cam.
Tasg fer wedi'i ffocysu <ul style="list-style-type: none">• syniad allweddol: bod modd defnyddio diagram coeden i drefnu gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none">◆ Dangoswch i'r dosbarth sut i greu diagram coeden o gwestiynau canghennog y gellir eu defnyddio i enwi pob gwrthrych.◆ Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a rhowch set o wyth llun i bob grwp. Gofynnwch iddynt greu diagram coeden sy'n gallu enwi pob gwrthrych yn unigryw.	<ul style="list-style-type: none">• cynhyrchu diagram coeden i fedru adnabod gwrthrychau	<ul style="list-style-type: none">• Gallai cynhyrchu cronfa ddata ganghennog neu 'allwedd wyddonol' ar bapur fod yn ddarn heriol o waith cartref.



Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu...	Gweithgareddau Posib	Canlyniadau Dysgu <i>Gall disgyblion...</i>	Pwyntiau i'w Nodi
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.)			
<ul style="list-style-type: none">• technique: to search a branching database.	<ul style="list-style-type: none">• Prepare a branching database of rocks. Show the children how to search the branching database to identify specimens of rock. Give pairs of children a rock specimen and ask them to use the branching database to identify it.	<ul style="list-style-type: none">• Search a branching database to identify objects.	<ul style="list-style-type: none">• Science terminology could be included.• A variety of branching databases could be included, e.g. food, plants, animals, minibeast etc.
Tasg Aseu			
<ul style="list-style-type: none">• defnyddio cronfa ddata ganghennog i drefnu, ad-drefnu a dadansoddi gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none">◆ Dangoswch sut i greu cronfa ddata ganghennog. Gosodwch offerynnau cerdd amrywiol o flaen y plant a thrafodwch y pethau sy'n debyg a'r pethau sy'n wahanol i'w gilydd. Labelwch bob offeryn gyda'i enw wrth iddo gael ei drafod. Wedyn gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau i greu cronfa ddata ganghennog sy'n nodi pob offeryn. Gofynnwch i bob grwp brofi cronfeydd data y grwpiau eraill.	<ul style="list-style-type: none">• creu cronfa ddata ganghennog sy'n nodi pob eitem yn unigryw	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi profiad i'r plant o ddylunio system i bobl eraill ei defnyddio. Gellid estyn y gweithgaredd drwy ofyn i'r plant gynhyrchu cronfa ddata ganghennog sy'n nodi'r plant yn y dosbarth i ymwelydd.